# Atodiad 19.

## Polisi Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (SFPG) “Dash Cams”

Camerâu yw systemau SFPG, a adwaenir hefyd fel dash cams cerbydau, sy’n wynebu tuag allan ac yn recordio’r hyn sy’n digwydd y tu allan i’r cerbyd. Maent yn cael eu defnyddio i ddal ffilm os digwydd i’r cerbyd fod mewn digwyddiad traffig y ffordd.

Mae iddynt lawer o fanteision, megis nodi pwy sy’n gyfrifol am achosi damwain, darparu tystiolaeth, datrys anghydfod, ac ambell waith, gallant arwain at ostwng premiymau yswiriant.

Rhaid i berchenogion cerbydau hacni a hurio preifat trwyddedig sydd eisiau gosod system SFPG wneud hynny yn unol â’r polisi hwn a’r amodau sydd ynghlwm.

Mae SFPG/dash cams yn destun Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR), ac felly cyn prynu system, cynghorir perchenogion cerbydau i ddarllen Cod Ymarfer Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ar Gamerâu Gwyliadwriaeth a Gwybodaeth Bersonol a Chanllaw i GDPR. Mae mwy o wybodaeth i’w gael yn: https://ico.org.uk/

Dylid nodi mai perchennog y cerbyd yw rheolydd data’r system a’i f/bod yn gyfrifol am y data onid yw’r system yn ymgorffori camerâu CTCC mewnol (gweler y polisi CTCC am fanylion pellach).

Rhaid i systemau sy’n recordio delweddau mewnol ac allanol gydymffurfio â’r polisi hwn, a pholisi a manyleb CTCC yr Awdurdod Trwyddedu.

Amodau i’w gosod ar Drwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat:

1. Ni ddylid gosod unrhyw system SFPG mewn cerbyd oni fydd arno farc CE a’i fod yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Cyngor 93/68/EEC neu’r hyn sy’n cyfateb.

2. Rhaid i berchennog y cerbyd gynhyrchu polisi SFPG/dash cam sydd yn nodi’n glir y sail gyfreithiol dros brosesu data personol a gesglir, a chyfnod cadw’r data. Dylid cyfleu pwrpas y system wrth unrhyw un sy’n gyrru’r cerbyd.

3. Dylai perchennog y cerbyd hysbysu’r Awdurdod Trwyddedu ymhen 7 diwrnod o ffitio system SFPG. Dylai hysbysiad o’r fath fod yn ysgrifenedig a bydd yn cynnwys manylion y cerbyd y ffitiwyd y system ynddo a gwneuthuriad, model a rhif marc CE (neu’r hyn sy’n cyfateb) y system SFPG.

4. Dylid arddangos hysbysiad rhoi gwybod, a ddarparwyd gan y cyflenwr, y tu mewn i'r cerbyd ar bob un o ffenestri cefn y teithwyr. Dylid gosod yr hysbysiadau mewn man amlwg lle gall pobl yn y cerbyd a'r tu allan iddo eu darllen. Dylai'r perchennog ofalu bod yr hysbysiadau yn cael eu cadw mewn cyflwr glân a darllenadwy.

5. Dylai'r perchennog sicrhau bod y system yn cael ei chynnal a'i chadw'n gywir ac yn rheoliad, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chan rywun sydd â'r cymwysterau addas. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o bob gwaith cynnal a chadw, a'u cadw gan y perchennog am o leiaf 12 mis. Dylid peri bod y cyfryw gofnodion ysgrifenedig ar gael pan fydd swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu neu Swyddog Heddlu yn gwneud cais.

6. Pan fydd swyddog o'r Awdurdod Trwyddedu neu swyddog heddlu yn gwneud cais am ddelweddau a adferwyd, dylai'r perchennog wneud yn siwr fod y system SFPG ar gael i weinyddwr y system mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol, a sut bynnag ymhen 7 diwrnod i'r cais.

7. Dylai perchennog y cerbyd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod unrhyw un sy'n gyrru'r cerbyd yn ymwybodol o bob amod yn ymwneud ag unrhyw system SFPG a osodwyd a'i f/bod wedi cael digon o gyfarwyddiadau am yr angen i'r system fod ar gael cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, a sut bynnag ymhen 7 diwrnod o unrhyw gais awdurdodedig am gael unrhyw ddelwedd.

8. Lle bo angen, dylai'r perchennog sicrhau y cyflwynir hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth i ymdrin â'r dibenion y defnyddir y system SFPG ar eu cyfer.